

Y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig Ein fferyllfa ni yw'r gyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) newydd cyffrous



Portffolio Trawsnewid Gweinyddu
Meddyginiaethau'n Ddigidol
Digital **Medicines** Transformation
Portfolio

Beth yw'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig?

Mae'r Gwasanaeth Rhagnodi Electronig (EPS) yn wasanaeth newydd gan GIG Cymru a fydd yn eich helpu chi, eich fferyllfa, eich meddyg teulu a'r amgylchedd.

Mae'r gwasanaeth rhad ac am ddim, hawdd ei ddefnyddio a diogel hwn yn gadael i'ch Meddyg Teulu anfon eich presgripsiwn atom yn electronig. Nid oes angen ffurflen bapur a bydd yn arbed amser gan na fydd angen casglu eich presgripsiwn o'r feddygfa mwyach.

Ynghyd â Chanolfan Feddygol Lakeside, rydym yn cymryd rhan yn y prawf cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio'r gwasanaeth rhagnodi electronig cyn iddo gael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru.

Beth yw manteision y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig?

Bydd yn arbed amser gan na fydd angen casglu'ch presgripsiwn o'r feddygfa.


Gallwch ein helpu i brofi'r gwasanaeth newydd cyffrous hwn cyn iddo gael ei ddefnyddio ledled Cymru.

Bydd EPS yn caniatáu i'ch presgripsiwn gael ei olrhain, felly byddwn ni bob amser yn gwybod ymhle y mae.

Byddwch yn helpu'r amgylchedd drwy leihau ein defnydd o bapur.

Cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Rhagnodi Electronig

Mae cofrestru yn syml. Rhowch wybod i ni yr hoffech chi ddefnyddio'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn, ac fe wnawn ni'r gweddill. Nid oes angen cyfrifiadur, gliniadur na ffôn clyfar arnoch i gofrestru a bydd eich data yn ddiogel.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

Am ragor o wybodaeth ewch i
igdc.gig.cymru/dmtp